

Diweddariad Ebrill 2019

**PRIFYSGOL BANGOR  
ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

Dylid cynnwys Aseiad Effaith Cydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisiau newydd, adolygu polisiau a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol<sup>1</sup> er mwyn sicrhau y dileir unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith cydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

<b>GRWPIAU CYDRADDOLDEB:</b>				
<b>Oedran</b>	<b>Anabledd</b>	<b>Ailddynodi gender</b>	<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	<b>Iaith Gymraeg</b>
<b>Hil</b>	<b>Crefydd a chred</b>	<b>Rhyw</b>	<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	<b>Math o Contract</b>
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>				

Sylwer - Mae'n ymarfer da ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a math o contract er bod y meysydd hynny dan ddeddfwriaeth wahanol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010

<b>Enw neu deitl y polisi: -</b>
Cod Ymarfer 15: Cefnogaeth fugeiliol

<sup>1</sup> Er y defnyddir y gair POLISI yn y templed hwn, dylid ei newid i STRATEGAETH/PENDERFYNIAD GWEITHREDIADOL fel bo'n briodol

<b>Gwybodaeth am y polisi:</b>	
Beth yw diben y polisi?	Bwriad y cod ymarfer hwn yw amlinellu'r gefnogaeth fugeiliol sydd ar gael i fyfyrwyr.
Pwy sy'n gyfrifol am y polisi?	Gwasanaethau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr.
Beth yw cysylltiad y polisi â blaenoriaethau strategol y brifysgol?	Ein cenhadaeth: "profiad cynhwysol".  Ein gwerthoedd: "amgylchedd diogel, croesawgar a chynhwysol".
Pa grwpiau sy'n rhanddeiliaid yn y polisi?	Myfyrwyr. Staff.
A gaiff y polisi ei ddefnyddio yn yr un modd ym mhob maes yn y brifysgol?	Caiff.
Nodwch y grwpiau y mae'r polisi'n berthnasol iddynt.	Myfyrwyr. Staff.

<b>A roddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol? (un o ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus)</b>	
A allai unrhyw elfennau o'r polisi fod yn wahaniaethol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol?	Pwrpas y cod ymarfer yw sicrhau bod pob myfyriwr yn derbyn cefnogaeth fugeiliol i'r safon ofynnol.
A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal?	Bwriad y cod ymarfer yw sicrhau bod gan bob parti gyfle cyfartal mewn cefnogaeth fugeiliol.
A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl?	Mae'r cod ymarfer yn sicrhau bod safon ofynnol ar gyfer cefnogaeth fugeiliol yn y brifysgol.

<b>Monitro</b>	
Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael i gyfrannu at y polisi?	Yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, Adroddiad Profiad Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Cwrs.

<b>Ymgynghori</b>	
Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio'r polisi?	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r weithdrefn hon.
Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad?	Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r rhanddeiliaid allweddol bob blwyddyn a chedwir cofnod ohonynt. Gall unrhyw aelod staff neu fyfyrwr awgrymu newidiadau i'r weithdrefn trwy'r Cynorthwyr Cydymffurfio a Rheoliadau.
Sut mae ymgynghori wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi?	Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwneud y weithdrefn yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr. Mae gan y weithdrefn gylch adolygu sefydlog lle caiff datblygiadau eu cynnwys.

<b>Gweithredu</b>	
Sut y gweithredir y polisi?	<p>Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r weithdrefn hon.</p> <p>Bydd y weithdrefn ar gael ar-lein yn <a href="http://www.bangor.ac.uk">www.bangor.ac.uk</a> a hefyd ar ffurf brintiedig ar gais. Cyflwynir sesiynau briffio gweithdrefnau cwynion bob blwyddyn a gall unrhyw aelod staff fynd i'r sesiynau.</p>
Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi?	Y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr sy'n gyfrifol am reoli'r weithdrefn.

<b>Monitro</b>	
Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nod?	Sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o'r cod.  Monitro ac adrodd parhaus mewn amrywiol bwyllgorau.
Pwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r polisi?	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd.
Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau na wnaiff roi grwpiau penodol dan anfantais?	Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a rhaid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol.
Pryd caiff y polisi ei adolygu i ganfod a yw'n cyrraedd ei nod a'i amcanion?	Mae'r weithdrefn hon ar gyloch adolygu 3 blynedd, ond caiff ei phrofi bob tro y caiff ei defnyddio.

<b>Goblygiadau o ran adnoddau</b>	
Hyfforddiant – a oes unrhyw ofynion hyfforddi'n gysylltiedig â datblygu, gweithredu neu fonitro'r polisi hwn?	
Beth yw'r goblygiadau eraill o ran adnoddau (gan gynnwys amser a baich gwaith) o weithredu'r polisi hwn?	

<b>ARGYMHELLION A DYDDIAD ADOLYGU</b>	
3 blynedd	
<b>ASESIAD EFFAITH – LLOFNOD A DYDDIAD</b>	
Mair Rowlands	29 Ebrill 2019